OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2730

## Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio Rhif 3) a Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "adeilad ynni a eithrir" yr ystyr a roddir i "*excepted energy building*" yn yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(**1**);

ystyr "meddiannydd" (*"occupant"*) yw person sy'n meddiannu preswylfa;

ystyr "preswylfa" (*"residence"*) yw'r ystyr a roddir iddo yn adran 6(1) o'r Mesur(**2**)**;**

ystyr "Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy" (*"ApprovedInspectors Regulations"*) yw Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010(**3**)**;**

ystyr "y Prif Reoliadau" (*"the Principal Regulations"*) yw Rheoliadau Adeiladu 2010(**4**).

(**1**) O.S. 2009/3019. Roedd Erthygl 3(a) o'r Gorchymyn hwn, a oedd yn trosglwyddo swyddogaethau penodol a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddf Adeiladau 1984 i Weinidogion Cymru, yn darparu na throsglwyddwyd y swyddogaethau i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir fel y'u diffiniwyd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn.

(**2**) Diwygir adran 6(1) gan Orchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723 (Cy. 261)).

(**3**) O.S. 2010/2215, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2010/2214 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1515, O.S. 2011/3058, O.S. 2012/718, O.S. 2012/3119, O.S. 2013/10, O.S. 2013/181, O.S. 2013/747 ac O.S. 2013/1105.